Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH ✆ 029 2043 1700 ✆ 029 2043 1701
www.wcva.org.uk ✆ 0800 2888 329

Prosiect yn cynnal cyfarfod diweddaru

Mae staff y prosiect Cynnwys Pobl yn gwahodd ymchwilwyr, ymarferwyr ac aelodau'r cyhoedd sydd â diddordeb mewn ymchwil i ddod i ddigwyddiad rhad ac am ddim a gynhelir yn Abertawe ym mis Mawrth i gael y wybodaeth ddiweddaraf am waith y prosiect hyd yn hyn.

Sefydlwyd Cynnwys Pobl ym mis Gorffennaf 2006 fel rhan o Gydweithrediad Ymchwil Clinigol Cymru (CRC Cymru) i annog cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr i gymryd rhan mewn gwaith ymchwil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n gwneud hyn trwy:

- Gydlynu cyfleoedd i gleifion, gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth gymryd rhan mewn ymchwil, darparu gwybodaeth, cefnogaeth a hyfforddiant.
- Darparu cyngor ar yr arfer gorau i ymchwilwyr a'u cysylltu gyda chleifion, gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth sy'n fodlon cymryd rhan.

Bydd y digwyddiad hwn yn adlewyrchu'r cynnydd sydd wedi ei wneud hyd yn hyn. Bydd y rhaglen yn pwysleisio manteision cynnwys pobl mewn ymchwil a bydd yn dangos enghreifftiau go iawn o gynnwys cleifion, gofalwyr, defnyddwyr gwasanaeth ac ymchwilwyr mewn ymchwil. Os byddwch yn dod fel claf, defnyddiwr gwasanaeth neu ofalwr, bydd help ar gyfer eich costau teithio ar gael.

I gael rhagor o wybodaeth ac i gofrestru ar gyfer y digwyddiad am ddim hwn a gynhelir ar 19 Mawrth 12-4pm yn Theatr y Grand, Abertawe, cysylltwch â Mel Knights, WCVA, Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd, CF10 5FH, ffôn 029 2043 1700 neu e-bost eventsadmin@wcva.org.uk.

Cynllun Gofodol Cymru

Cychwynnodd ymgynghoriad ar Gynllun Gofodol Cymru: Pobl, Lleoedd, Dyfodol ddiwedd mis Ionawr a bydd yn para am 12 wythnos. Yn y ddogfen, cyflwynir gweledigaeth ar sut dylai pob rhan o Gymru ddatblygu'n economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol dros yr 20 mlynedd nesaf a bydd yn arwain y ffordd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn gwario ei harian dros y blynyddoedd nesaf.

Gwelwyd cynnydd go iawn mewn llwyth o waith traws-sector a gwaith partneriaeth o'i gymharu â'r nodau a bennwyd yn y Cynllun Gofodol cyntaf yn 2004. Mae hyn wedi bod o fudd i sicrhau dull cydgysylltiedig o ymdrin â materion cymhleth megis trafnidiaeth, tai a phatrymau anheddu am y tro cyntaf, gan arwain at ddefnyddio arian cyhoeddus yn fwy effeithiol.

Hoffai Llywodraeth Cynulliad Cymru i chi fod yn rhan lawn o'r ymgynghoriad, felly dewch draw i'r digwyddiadau rhanbarthol. Yn y digwyddiadau hyn bydd cyfle i gynyddu ymwybyddiaeth o fewn eich mudiad eich hun, a gobeithir hefyd y byddwch yn cysylltu â'ch rhwydweithiau ehangach ac yn dweud wrthynt am y Cynllun Gofodol mewn modd sy'n eu helpu hwy i ddeall beth yw ei ddiben a sut mae'n effeithio arnynt hwy.

Bydd y ddogfen ymgynghori ar gael yn http://new.wales.gov.uk/about/strategy/spatial/?lang=cy. I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw agwedd ar y cynllun gofodol - cysylltwch â Spencer McGarry ar 02920 823759. Constance Adams sy'n cydlynu cyfraniad y sector gwirfoddol i'r cynllun gofodol, a cysylltu â hi ar cadams@wcva.org.uk.

Comisiwn yn edrych ar ffordd newydd o adolygu cwynion

Mae'r Comisiwn Elusennau wedi lansio gweithdrefn newydd ar gyfer delio ag anfodlonrwydd cwsmeriaid am faterion sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau.

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus y llynedd, bydd y weithdrefn newydd yn cynnig y dewis i gwsmeriaid y Comisiwn gael adolygiad 'ysgafn' o ganlyniad eu hachos, os nad yw'n gymwys i gael adolygiad ffurfiol dan weithdrefn Adolygu Penderfyniad y Comisiwn.

Un o nodweddion eraill y broses newydd yw rhagor o ffocws ar ddatrys materion yn gynnar drwy ddatrys yn gynnar yn nhimau busnes y Comisiwn. Os bydd cwsmeriaid dal yn anfodlon, byddant dal yn cael adolygiad hyd-braich gan Dîm Gwasanaethau Cwsmeriaid y Comisiwn.

Bydd y Comisiwn yn parhau i weithredu ei wasanaeth Adolygwr Cwynion Annibynnol ar gyfer cwsmeriaid sydd dal yn anfodlon yn dilyn adolygiad mewnol o'u cwyn. Yn dilyn proses dendro agored, mae Jodi Berg, Adolygwr Cwynion Annibynnol y Comisiwn wedi cael ei hailbenodi tan ddiwedd 2010.

I gael rhagor o wybodaeth am y weithdrefn newydd a gwaith y Comisiwn Elusennau dros Gymru a Lloegr, edrychwch ar www.charitycommission.gov.uk/tcc/compproc.asp.

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH 029 2043 1700 029 2043 1701
www.wcva.org.uk 0800 2888 329

Recriwtio trydydd sector Cymru

Ers ei lansio ym mis Medi 2006, mae'r fenter Goodmoves wedi gweddnewid recriwtio yn nhrydydd sector Cymru.

Menter ar y cyd rhwng WCVA a Big Issue Cymru yw Goodmoves. Mae'n wasanaeth hysbysebu amlgyfrwng a sefydlwyd i roi dull gweithredu rhatach ac sydd wedi'i dargedu'n well ar gyfer recriwtio staff ac ymddiriedolwyr newydd.

Bydd swyddi gwag a roddir yn Goodmoves yn ymddangos mewn pum cyfrwng gwahanol:

- *Big Issue Cymru* a *Big Issue South West* - rhifynnau wythnosol sy'n cyrraedd dros 85,000 o bobl
- *Network Jobs* - atodiad recriwtio wythnosol sy'n cyrraedd yr holl elusennau allweddol yng Nghymru a dros 1,600 o fudiadau gwirfoddol sy'n aelodau o WCVA.
- *www.goodmoves.org.uk* - calon gwasanaeth Goodmoves sy'n caniatáu i ymwelwyr chwilio am y swydd iawn yn yr ardal iawn
- *www.wcva.org.uk* - hafan WCVA y mae dros 50,000 o bob yn ymweld â hi bob mis

Er ei lansio, mae mudiadau gwirfoddol o bob cwr o Gymru wedi defnyddio'r gwasanaeth i recriwtio staff gan gynnwys Prif Weithredwyr, Cyfarwyddwyr, Rheolwyr Prosiect, Swyddogion Polisi a staff gweinyddol. Mae Shelia Smith o UNA Exchange yn enghraifft o'r fath:

'Yn dilyn methiant ymarfer recriwtio yn ystod hydref 2006, ar ôl hysbysebu yn y cyfryngau cenedlaethol, rhoesom gynnig ar goodmoves fel arbrawf. Roeddem yn hapus iawn gyda'r pecyn - *The Big Issue*, y wefan a *Network Jobs* - a llwyddon ni i benodi ein Cydlynydd Rhaglenni. Yn gyffredinol, roedd yr ymgeiswyr y tro hwn o grwp targed llai ond fwy priodol o ymgeiswyr. Byddwn yn bendant yn defnyddio goodmoves eto wrth recriwtio y tro nesaf.'

Mae mudiadau gwirfoddol yng Ngogledd Cymru hefyd wedi bod yn elwa o Goodmoves. 'Cawsom ymateb da iawn i'r hysbysebion a roddwyd yn Big Issue Cymru ac mewn ffynonellau WCVA cysylltiedig. Roedd pob un o ffynonellau Goodmoves wedi arwain at unigolion a oedd â diddordeb ac roedd safon ansawdd yr ymgeiswyr yn uchel; meddai Chris Flewitt o Body Positive Swydd Gaer a Gogledd Cymru.

Mae'n hawdd defnyddio gwasanaeth Goodmoves, dim ond un ffi a godir ac nid oes unrhyw gostau cudd. Mae'r pris a roddir i fudiadau'n cynnwys creu copi a'r holl waith dylunio. Mae gwefan Goodmoves hefyd yn cynnig manteision ychwanegol, heb gost ychwanegol, megis: proffil eich mudiad, pecynnau ymgeisio y gellir eu llwytho i lawr, a chyhoeddi ar-lein ar unwaith, os bydd angen. Os hoffech siarad am becyn Goodmoves, cysylltwch â Matt Bates yn Big Issue Cymru ar 029 2025 5672 neu matt@bigissuecymru.co.uk.

Gwrthdaro eto dros dreuliau gwirfoddolwyr

Mae'r llywodraeth ar fin gwrthdaro â'r sector gwirfoddol unwaith eto dros dreuliau gwirfoddolwyr.

Y llynedd, bu'n rhaid iddi dynnu taflen am wirfoddolwyr a buddiannau'n ôl, wedi i'r daflen ddatgan nad oedd lwfansau cinio'n draul a ganiateir i wirfoddolwyr sy'n derbyn buddiannau. Tynnwyd y daflen yn ôl wedi ymgyrch enfawr yn erbyn yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) gan grwpiau gwirfoddol yng Nghymru a ledled gweddill y DU.

Yn awr, mae'r un adran yn y llywodraeth - wedi'i hailenwi'n Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio (BERR) - dan warchae gan y sector eto oherwydd datganiad y dylid ystyried costau gofal plant yn fudd-dal yn hytrach na thraul. Mae'n ymddangos mewn cyfarwyddyd newydd yn dilyn ymgynghoriad am y Ddeddf Isafswm Cyflog sy'n hawlio bod ad-dalu costau gofal plant 'yn fudd-dal ymarferol arwyddocaol, ac felly byddai'n newid natur y berthynas rhwng gweithiwr gwirfoddol a mudiad cymwys.'

Goblygiad hyn yw y gallai gwirfoddolwyr sy'n gallu adennill costau gofal plant fel rhan o'u hawliad mân dreuliau fod â'r hawl i dderbyn yr isafswm cyflog, pe byddent yn dwyn achos yn erbyn y grwp gwirfoddol. Fodd bynnag, mewn achosion blaenorol lle mae gwirfoddolwyr wedi ceisio hawlio'r isafswm cyflog, ystyriwyd bod talu costau gofal plant yn rhesymol ac nad oeddent yn fudd-daliadau i wirfoddolwyr.

Credir bod costau treuliau gofalwyr plant a gofalwyr eraill yn rhwystr gwirioneddol i rieni sengl a phobl fel gofalwyr ifanc a fyddai'n elwa o gael y cyfle i wirfoddoli.

Maent hefyd yn darged i fentrau'r llywodraeth a'r Cynulliad ar gyfer gwirfoddoli, megis cynigion Comisiwn Russell i annog mwy o bobl ifanc i wirfoddoli. Y cyngor i grwpiau gwirfoddol sy'n poeni am y camgymeriad diweddaraf hwn gan y llywodraeth yw ysgrifennu at eu ASau ac at DERR i ofyn am newid yn y polisi.

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH ✆ 029 2043 1700 ✆ 029 2043 1701
www.wcva.org.uk ✆ 0800 2888 329

Ffocws ar wasanaethau cyhoeddus

Cafodd Andrew Davies, y Gweinidog dros Gyllid a Gwasanaethau Cyhoeddus, ei gyfarfod cyntaf ers ei benodi i'w bortffolio newydd, gyda rhwydweithiau'r sector gwirfoddol, dan nawdd Cynllun Sector Gwirfoddol y Cynulliad Cenedlaethol, ym mis Ionawr. Roedd y cyfarfod yn canolbwyntio ar gyfraniad y trydydd sector at yr agenda diwygio gwasanaethau cyhoeddus, gan gyfeirio'n benodol at ei swyddogaeth o ran ymgysylltu â dinasyddion, partneriaethau a chomisiynu, darparu gwasanaethau a chraffu.

Pwysleisiodd y Gweinidog ymrwymiad y llywodraeth i ymgysylltu â dinasyddion sy'n sail i'r agenda diwygio. Cydnabu fod cyflawni ymgysylltiad go iawn rhwng gwasanaethau cyhoeddus a'r bobl sy'n eu defnyddio yn peri sialensiau sylweddol, ac roedd yn croesawu'r cyfraniad y gallai nifer o fudiadau yn y trydydd sector ei wneud. Pwysleisiodd cynrychiolwyr y sector bwysigrwydd bod ymgysylltu yn fwy na dim ond ymgynghori, a bod angen i leisiau dinasyddion a defnyddwyr fod yn rhan o'r her a'r penderfynu.

Bu'r cyfarfod hefyd yn trafod swyddogaeth y sector o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus. Soniodd cynrychiolwyr y sector am yr angen i gael tegwch i sicrhau bod yr holl wasanaethau cyhoeddus yn rhwym wrth yr un drefn comisiynu a chaffael, a'r angen i olrhain i ba raddau yr oedd patrymau darparu gwasanaethau yn newid. Cyfeiriodd y Gweinidog at y Tasglu Caffael Busnes a gymeradwyodd arweiniad newydd yn ddiweddar gan Gwerth Cymru ar gaffael gan y trydydd sector, a'r potensial i fonitro sut yr oedd hyn yn effeithio ar gaffael lleol.

Croesawodd y cyfarfod y camau a oedd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Strategol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y trydydd sector yng nghyswllt gwasanaethau cyhoeddus. Gwelwyd eu bod yn pennu agenda bwysig ar gyfer cyfranogi rhagor â'r sector, a chytunodd y Gweinidog i ysgrifennu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut yr oedd y camau hyn yn cael eu gweithredu. Byddai hyn yn sail ar gyfer trafodaeth barhaus yn y cyfarfod bob hanner blwyddyn nesaf.

Sefydliad yn cyhoeddi dull cyllido newydd

Mae Sefydliad Esmée Fairbairn wedi lansio dull cyllido newydd. Caiff y rhan fwyaf o'i gyllid ei sianelu'n awr drwy'r Brif Gronfa a fydd yn ffordd agored, lai rhagnodol, o weithio.

Mae'r Sefydliad yn disgwyl cyllido amrywiaeth ehangach o waith nag o'r blaen, er y bydd ei ddiddordebau craidd yr un fath ym maes diwylliant, addysg, yr amgylchedd a datblygu cymdeithasol.

Fel rhan o'r ffordd newydd o gyllido mae'r Sefydliad hefyd yn cynnal nifer o geinciau llai sydd â mwy o ffocws. Bydd y rhain mewn meysydd y mae'n credu y gallai ymyriad mwy uniongyrchol gael mwy o effaith. Y tri cyntaf fydd: Bioamrywiaeth, Casgliadau Amgueddfeydd a Threftadaeth a Dulliau Newydd o Ddysgu. Mae'r Sefydliad yn cynllunio lansio rhagor o geinciau yn nes ymlaen yn ystod y flwyddyn.

Mae Arweiniad y Prif Gronfa ar gael yn www.esmeefairbairn.org.uk/funding/main-fund. Ac mae'r Arweiniad ar gyfer y Ceinciau Cyllido ar gael yn www.esmeefairbairn.org.uk/funding/funding-strands.

Pob clic i gyfrif mewn cystadleuaeth

Mae'r chwilotwr ar y we Everyclick.com yn cynnig cyfle i elusennau ennill ymgyrch hysbysebu genedlaethol yn yr awyr agored yn rhad ac am ddim ar dros 1,500 o safleoedd ledled y DU.

Mae'n syml i elusennau gymryd rhan yn y sialens i godi cymaint o arian â phosibl i'w hachos dros gyfnod o dri mis drwy ysbrydoli eu cefnogwyr i ddefnyddio chwilotwr Everyclick.com's, a fydd yn rhoi arian i elusen bob tro y byddwch yn chwilio.

Bydd y gystadleuaeth ar agor rhwng 14 Ionawr 2008 a 14 Mawrth 2008 a gall elusennau gofrestru ar gyfer y sialens ar Everyclick.com. Gofynnir i chi roi manylion maint eich sylfaen rhoddwyr a rhoddir eich elusen mewn un o dri chategori: elusennau bach, canolig neu fawr. Caiff y swm cyfartalog a godir gan bob cefnogwr ei gyfrifo i ddod o hyd i'r enillydd ym mhob categori.

Bydd panel o arbenigwyr annibynnol o'r sector yn dewis un o'r tri a fydd wedi cyrraedd y rownd derfynol i ennill y wobr gyffredinol sef ymgyrch hysbysebu genedlaethol rhad ac am ddim yn yr awyr agored a bydd y ddau arall yn cael hysbysebu am ddim ar Everyclick.com. I wybod mwy am y gystadleuaeth, edrychwch ar www.everyclick.com.

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH ☎ 029 2043 1700 ✉ 029 2043 1701
www.wcva.org.uk ☎ 0800 2888 329

Mudiadau am y gorau

Rhoddir llwyfan i fudiadau gwirfoddol ledled Cymru yn ystod 2008, diolch i Wobrau *Rhwydwaith Cymru* sydd newydd gael eu sefydlu.

Lansiwyd Gwobrau *Rhwydwaith Cymru*, a gefnogir gan Class Telecommunications, yng nghynhadledd WCVA. Fe'u sefydlwyd i ddangos gwaith y trydydd sector a rhoi cydnabyddiaeth genedlaethol am lwyddiannau eithriadol.

Gall unigolion enwebu eu mudiad eu hunain am wobr a gallant hefyd enwebu mudiadau eraill mewn categorïau ar wahân. Bydd pob mudiad a enwebir yn cael tystysgrif o ganmoliaeth a chyflwynir gwobr i'r enillwyr yng nghinio cynhadledd flynyddol WCVA yn 2008. Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau yw 19 Medi 2008.

Gellir cael manylion llawn cynllun Gwobrau *Rhwydwaith Cymru*, gan gynnwys ffurflenni enwebu, gan Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329. Gellir hefyd eu lawrlwytho oddi ar y wefan www.wcva.org.uk/volunteering.

Gwobr gwirfoddoli

Mae WCVA yn gofyn i bobl ar draws Cymru roi cyfle i rywun y maent yn ei adnabod ennill gwobr genedlaethol.

Ceisir enwebiadau ar gyfer cynllun gwobrau sy'n cydnabod ac yn gwobrwyo ymroddiad gwirfoddolwyr sydd wedi helpu i wneud y gwahaniaeth mwyaf i'r cymunedau y maent yn byw ynddynt.

Cyflwynir Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru 2008, gyda chefnogaeth y Post Brenhinol, mewn pum categori: unigolion, pobl ifanc (dan 25 mlwydd oed), gwirfoddolwyr 'gwyrdd', ymddiriedolwyr a grwpiau. Ceir hyd at dri enillydd ymhob categori, sy'n arwain at 15 enillydd cenedlaethol, a bydd pawb a enwebir yn derbyn tystysgrifau mewn seremoni leol neu drwy'r post. Gellir cael manylion cynllun Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru, gan gynnwys ffurflenni enwebu, gan Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329. Gellir hefyd eu lawrlwytho oddi ar y wefan www.wcva.org.uk/volunteering. Y dyddiad cau yw 28 Mawrth 2008.

Grantiau newydd gan Blant mewn Angen

Mae Plant Mewn Angen y BBC yn lansio rhaglen newdd gwerth £2 miliwn o'r enw 'Positive Destiinations'. Bydd tri grant o £500,000 dros tair blynedd ar gael i gefnogi prosiectau 'arloesol ac effeithiol' sy'n delio gyda gofynion pobl ifanc sydd ar fin gadael ysgol heb unrhyw gymwysterau.

Yn ychwanegol, bydd £500,000 yn cael eu wario ar dri grant llai. Ceir manylion llawn a chanllawiau ymgeisio yn www.bbc.co.uk/pudsey. Mae'n rhaid ymgeisio arlein. Y dyddiad cau yw 30 Mawrth 2008.

Ymgynghori ar Heathrow

Cyhoeddwyd ymgynghoriad ar ehangu maes awyr Heathrow gan yr Adran Drafnidaeth. Hoffai Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynifer o fudiadau ac unigolion yng Nghymru i gael cyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad fel y bydd y penderfyniad polisi terfynol yn gyflawn.

Mae'r ddogfen ymgynhori ar gael yn drydanol yn www.dft.gov.uk/consultations/open/heathrowconsultation/. Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 27 Chwefror 2008.

Os ydych yn bwriadu danfon ymateb i'r Adran Drafnidiaeth , buasai'n gymorth pe taech yn medru danfon copi at Lywodraeth Cynulliad Cymru at gary.spiller@wales.gsi.gov.uk.

Bydd rhifynau nesaf yr atodiad cenedlaethol hwn gan WCVA ar gael ar ddiwedd misoedd Mawrth, Mai, Gorffennaf a Thachwedd 2008.

Deddf Cadw Data 1998. Cedwir a phrosesir manylion cysylltu pob un sy'n derbyn yr *Atodiad Cenedlaethol* gan WCVA ar gyfrifiadur. Defnyddir y wybodaeth gan WCVA i fonitro a hyrwyddo'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Datgelir manylion cysylltu i drydydd parti i fod o gymorth yn y broses hwn.